**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 5 Mawrth 2020 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | H M Morris |
| P M Black | D H Hopkins | D Phillips |
| M C Child | L James | C L Philpott |
| J P Curtice | Y V Jardine | S Pritchard |
| N J Davies | J W Jones | A Pugh |
| A M Day | M H Jones | J A Raynor |
| P Downing | P K Jones | C Richards |
| C R Doyle | S M Jones | K M Roberts |
| M Durke | E J King | M Sherwood |
| V M Evans | E T Kirchner | R V Smith |
| W Evans | M A Langstone | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | A S Lewis | R C Stewart |
| R Francis-Davies | M B Lewis | D G Sullivan |
| S J Gallagher | R D Lewis | M Sykes |
| L S Gibbard | W G Lewis | M Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | G D Walker |
| K M Griffiths | P Lloyd | L V Walton |
| T J Hennegan | I E Mann | T M White |
| C A Holley | P M Matthews | |
| P R Hood-Williams | P N May | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, C R Evans, J A Hale, D W Helliwell, O G James, L R Jones, B J Rowlands, P B Smith, G J Tanner, L G Thomas, W G Thomas a/ac L J Tyler-Lloyd

## 120. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda. Rhoddwyd cyngor hefyd ynghylch rhagderfyniad a rhagdueddiad.

Atgoffodd Gynghorwyr a Swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, J P Curtice, M Durke, K M Griffiths, W G Lewis, P N May, A Pugh a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 127 “Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2021/22 - 2023/24”;

2) Datganodd y Cynghorwyr M Durke, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, K M Griffiths, M B Lewis, R D Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, P N May, R V Smith a G D Walker gysylltiad personol â Chofnod Rhif 128 “Cyllideb Refeniw 2020/2021”;

   Sylwer: Roedd y cynghorydd Chris Holley wedi derbyn goddefeb i aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig mewn perthynas â materion a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

3) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, M Durke, K M Griffiths, W G Lewis, P N May a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 129 “Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2019/20- 2024/25”;

4) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 130 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2020/21”;

5) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 131 "Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - 2023/24”;

6) Datganodd y Cynghorwyr P N May ac C Richards gysylltiad personol â Chofnod Rhif 132 "Penderfyniadau i'w Gwneud yn Unol â Rheoliadau Pennu Treth y Cyngor 2020/2021";

7) Datganodd y Cynghorwyr C A Holley a P N May gysylltiad personol â Chofnod Rhif 133 “Strategaeth Gyfalaf 2019/20- 2024/25”;

8) Datganodd y Cynghorydd P N May gysylltiad personol â Chofnod Rhif 134 "Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus/Y Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2020/21";

9) Datganodd y Cynghorwyr A M Day, C A Holley, K M Griffiths a P N May gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 135 "Enwebu Darpar Arglwydd Faer a Dirprwy Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2020-2021";

10) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, J W Jones ac M H Jones gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 135 "Enwebu Darpar Arglwydd Faer a Dirprwy Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2020-2021" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 121. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020.

## 122. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 123. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

**1) Cydymdeimladau**

**i) Y Cyn-gynghorydd John Miles**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd John Miles. Bu'r Cyn-gynghorydd yn gwasanaethu wardiau etholiadol Tal-y-Bont a Phontarddulais am 17 o flynyddoedd. Bu'r Cyn-gynghorydd yn gwasanaethu

- Dinas a Sir Abertawe o 4 Mai 1995 tan 3 Mai 2012.

**ii) Haydn Tanner, gŵr y Cynghorydd Gloria Tanner**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Haydn Tanner, gŵr y Cynghorydd Gloria Tanner. Bydd yr angladd am 12.30pm ar 11 Mawrth 2020 yn Amlosgfa Abertawe.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Ffilmio, Recordio a Thynnu Lluniau yn ystod Cyfarfodydd y Cyngor**

Dywedodd yr aelod, Llywyddol, o dan Bolisi "Ffilmio, Recordio a Thynnu Lluniau yn ystod Cyfarfodydd y Cyngor" yr awdurdod (a fabwysiadwyd ar 24 Tachwedd 2011), ei fod wedi caniatáu criw ffilmio o Amazon News Media i ffilmio Cyfarfod y Cyngor.

**3) Y Cynghorydd Paulette B Smith**

Dymunodd yr Aelod Llywyddol ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd P B Smith ar gyfer ei llawdriniaeth heddiw ac am wellhad buan.

**4) Billy Evans, gŵr y Cynghorydd V Mandy Evans**

Dymunodd yr Aelod Llywyddol ddymuniadau gorau i Billy Evans, gŵr y Cynghorydd V M Evans, yn ystod ei gyfnod o salwch.

**5) *Great British Market Awards* 2020**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Marchnad Dan Do Abertawe wedi derbyn gwobr y Marchnad Dan Do Orau yn y '*Great British Market Awards'* 2020. Mae'r gwobrau a gynhelir gan y Gymdeithas Genedlaethol Awdurdodau Marchnad (NAMBA) yn helpu i ddathlu a hyrwyddo'r marchnadoedd rhagorol ar hyd ac ar led Prydain.

Diolchodd i Lisa Wells a Thîm Rheoli Canol y Ddinas am eu hymdrechion gyda Marchnad Dan Do Abertawe.

**6) Diwrnod Rhyngwladol y Merched, 8 Mawrth 2020**

Croesawodd yr Aelod Llywyddol y ffaith bod cynifer o Gynghorwyr yn gwisgo rhywbeth porffor heddiw i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched, sef 8 Mawrth 2020. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn d i ddathlu cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod.

**7) Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad argymhellion terfynol mewn perthynas â'i adolygiad o Drefniadau Etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe ar 3 Mawrth 2020. Mae cyfnod o 6 wythnos bellach unrhyw un gyflwyno sylwadau. Dylid e-bostio sylwadau i'r Tîm Democratiaeth Llywodraeth Lleol yn lgdtmailbox@gov.wales

Mae'r argymhellion terfynol ar gael yn www.ldbc.gov.wales

Dywedodd, os bydd gan gynghorwyr unrhyw gwestiynau am yr argymhellion terfynol, y dylent gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**8) Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg**

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i Byron Lewis, a'i longyfarch. am ei waith fel Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg, 2008-2020. Ymddeolodd Byron Lewis o rôl Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg ar 14 Chwefror 2020.

Bydd Louise Fleet, Cyn-uchel Siryf ar gyfer Gorllewin Morgannwg (2017-2018) a chyn-weithiwr yr awdurdod hwn yn ymgymryd â rôl Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg ar 16 Mawrth 2020. Mae Louise yn Ynad Heddwch, ac fe'i penodwyd i fainc Abertawe ym 1993. Mae gan Louise gefndir ehagach sylweddol, gan gynnwys nifer o rolau arweinyddiaeth ac mae hi wedi ymddeol yn ddiweddar o'i huwch-rôl yn Swyddfa Archwilio Cymru fel Arbenigwr Perfformiad.

Llongyfarchodd Louise ar ei rôl sydd ar ddod fel Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg.

**9) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

**i) Eitem 9 "Cyllideb Refeniw 2020-21"**
Tudalen 40, Argymhellion 1 a 2 Dileu'r cyfeiriad i “2019/20” yn y ddau argymhelliad a rhoi “2020/21” yn eu lle.

**ii) Eitem 13 "Penderfyniad Statudol - Penderfyniadau i'w Gwneud yn Unol â Rheoliadau Pennu Treth y Cyngor 2020/2021"**
Tudalen 152, Argymhelliad (5) Dileu'r cyfeiriad i "Pengelli a Waugron" a rhoi "Pengelli a Waungron" yn ei le.

## 124. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Cefnogaeth ariannol i breswylwyr/fusnesau Abertawe y difrodwyd eu heiddo gan lifogydd**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor swyddogion yr awdurdod a'r Cynghorydd Mark Thomas (Aelod y Cabinet dros Reoli'r Amgylchedd ac Isadeiledd) am eu gwaith rhagorol yn ystod y llifogydd diweddar a gafwyd yn Abertawe.

Dywedodd fod y cyngor eisoes wedi darparu cymorth i oddeutu 35 o breswylwyr yr oedd angen cymorth arnynt i gyflwyno ceisiadau am daliadau cymorth mewn argyfwng Llywodraeth Cymru i bobl y difrodwyd eu cartrefi gan stormydd diweddar.

Roedd wedi penderfynu dyfarnu cymorth ariannol ychwanegol drwy ddefnyddio disgresiwn y cyngor o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i leihau Treth y Cyngor net sy'n daladwy ar gyfer cartrefi a ddioddefodd lifogydd o ganlyniad i stormydd diweddar i ddim, am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y llifogydd. Mae'n bosib y bydd gan breswylwyr a ddioddefodd cymaint o lifogydd yn eu cartrefi y bu'n rhaid iddynt symud oddi yno hawl i gael eithriad llwyr o Dreth y Cyngor nes iddynt symud yn ôl am gyfnod o hyd at 12 mis. Dylai pobl yn y sefyllfa honno gysylltu ag Is-adran Treth y Cyngor neu eu cynghorydd lleol.

Mae darpariaeth debyg yn bodoli ar gyfer eiddo busnes i helpu'r rheini yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt. O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae gan awdurdodau bwerau i roi cymorth grant o hyd at 100% i drethdalwr

sy'n profi caledi os byddai'r trethdalwr hwnnw'n dioddef caledi pe na bai'r awdurdod yn dyfarnu cymorth, ac y mae'n rhesymol i'r awdurdod wneud hynny, gan ystyried buddion trethdalwyr lleol.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald i'r holl wybodaeth berthnasol am arian sydd ar gael i'r rheini y mae'r llifogydd diweddar wedi effeithio arnynt gael ei dosbarthu i bob cynghorydd.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai'n dosbarthu gwybodaeth i bob Cynghorydd.

**2) Coronafeirws**

Darparodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad am coronafeirws gan dawelu meddyliau cynghorwyr drwy ddweud bod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda phob asiantaeth berthnasol.

**3) Lansio Adfywio Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y cynhaliwyd digwyddiad lansio Adfywio Abertawe ar 4 Mawrth 2020. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r awdurdod amlinellu ei syniadau i fuddsoddwyr a datblygwyr. Roedd yn ceisio ailddatblygu saith safle, gwaith gwerth £1 biliwn, ar ben prosiectau sydd eisoes yn bod, er mwyn gwneud Abertawe'n fwy o ddinas ar gyfer yr 21ain ganrif.

**4) Cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, AS, ac wedi amlygu prosiectau allweddol Abertawe.

## 125. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda. Rhestrir y cwestiynau y mae angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

Gofynnwyd cwestiwn gan Susie Jewell mewn perthynas â Chofnod 37 "Cwestiynau'r Cynghorwyr" - Cwestiwn 12:

a) *"Faint o'r gyllideb gwerth £55miliwn o bunnoedd ar gyfer y ganolfan ragoriaeth mewn technoleg ddigidol yn Abertawe sydd wedi'i glustnodi ar gyfer casglu, coladu ac archwilio data diogelwch amgylcheddol dynol? Sut mae'r cyngor yn cael mynediad at yr wybodaeth hon?*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Sylwer:** Atgoffodd Arweinydd y Cyngor Ms Jewell o'r cynnig i gwrdd a wnaed ganddo yng nghyfarfod y cyngor ar 26 Tachwedd 2019 er mwyn trafod 5G. Ailadroddodd y cynnig gan ddweud y byddai e-bost atgoffa yn dilyn hyn.

## 126. Technical Budget Presentation

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 gyflwyniad technegol am yr adroddiadau cyllidebol canlynol:

i) Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2021/22 i 2023/24;
ii) Cyllideb Refeniw 2020-2021;
iii) Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2019/20-2024/25;
iv) Cyllideb Refeniw Cyfrif Refeniw Tai 2020/21;
v) Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 - 2023/24;
vi) Strategaeth Gyfalaf 2019/20 - 2024/25;
iv) Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus/Dangosyddion y Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2020/21.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol i'r Swyddog Adran 151. Ymatebodd y Swyddog Adran 151 yn unol â hyn.

Yn dilyn cwestiynau technegol, rhoddodd yr Arweinydd drosolwg gwleidyddol cyffredinol o'r sefyllfa gyllidebol ac yna cafwyd cyflwyniad gwleidyddol am yr adroddiadau cyllidebol y cyfeiriwyd atynt uchod.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau i Arweinydd y Cyngor. Ymatebodd yr Arweinydd ac Aelodau Cabinet perthnasol yn unol â hyn.

## 127. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2021/22 - 2023/24.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 i 2023/24 fel sail am gynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley i'r Swyddog Adran 151 am ragor o wybodaeth ynghylch y Model Buddsoddi Cydfuddiannol y cyfeiriwyd ato ym Mharagraff 2.11 yr adroddiad.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 128. Cyllideb Refeniw 2020/2021.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod y Cynghorwyr C A Holley, E W Fitzgerald, J W Jones ac M H Jones wedi cyflwyno diwygiad i'r gyllideb.

**Addasiad**
Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd C A Holley. Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd E W Fitzgerald. Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*“1) Bydd £1m o weddill y gronfa wrth gefn a ragwelir fel alldro ei gadw'n ôl ar ddiwedd blwyddyn 2019-20 a'i drosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar yr alldro diwedd blwyddyn ac yn y Datganiad o Gyfrifol; gan sicrhau felly bod yr effaith gyffredinol ar weddill y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn cael ei gwrthbwyso dros y ddwy flynedd;*

*2) O ganlyniad, bydd gofyniad y gyllideb yn cael ei leihau £1m o ganlyniad i dynnu £1m o'r i Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol a chaiff y cynigion cyllidebol sylfaen ar gyfer 2020-21, sef cyfanswm o £260,000 eu tynnu hefyd:*

| | |
|---|---|
| ➢ *Arian ar gyfer Hawliau Dynol* | *£50,000* |
| ➢ *Cronfa Cynnwys y Gymuned* | *£60,000* |
| ➢ *Wi-Fi am ddim mewn ardaloedd masnachol* | *£50,000* |
| ➢ *Arian ychwanegol ar gyfer Trawsnewidiad Digidol* | *£100,000* |

*3) Lleihau'r cyfanswm angenrheidiol ar gyfer yr gofyniad y gyllideb ar gyfer 2020-21 £1,260,000;*

*4) Bydd y cyfanswm ariannu sy'n ofynnol ar gyfer 2020-21 yn cael ei leihau gan £1,260,000 cyfatebol drwy leihau'r cyfanswm a godwyd gan Dreth y Cyngor gan swm cyfatebol;*

*5) Diwygio Treth y Cyngor Band D ar gyfer 2020-21 a'r holl gyfrifiadau Treth y Cyngor dilynol ar gyfer y Penderfyniad Statudol er mwyn cael Treth y Cyngor o £1,392.62 ar gyfer Band D yn lle hynny, sy'n cynrychioli cynnydd o 3.56%.”*

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd pleidleisio ar y mater. Ni chefnogwyd y diwygiad ac ni ddaeth yn rhan o'r brif argymhelliad.

Dechreuodd y ddadl ar y gyllideb wreiddiol fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Cyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21 fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21 fel y nodwyd yn Adran 9 yr adroddiad.

## 129. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2019/20- 2024/25.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 - 2024/25.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) 1) Cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 - 2024/25 fel a fanylir yn Atodiadau A, B, C, D, E ac F yr adroddiad.

**130. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2020/21.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi rhent dros dro Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo'r ffioedd, y taliadau a'r lwfansau fel yr amlinellwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

3) Cymeradwyo'r cynigion cyllideb refeniw fel y nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

**131. Cyfrif Refeniw Tai - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2019/20 - 2023/24.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 a 2023/24.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2019/20;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2020/21 - 2023/24;

3) Lle caiff cynlluniau unigol yn Atodiad B eu rhaglenni dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, caiff y rhain eu neilltuo a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y blynyddoedd dilynol.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald am ddadansoddiad llawn o gostau uned a safle sy'n gysylltiedig â'r strategaeth Rhagor o Gartrefi. Nododd y Cynghorydd A S Lewis y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**132. Penderfyniad statudol - dylid gwneud penderfyniadau yn unol â'r rheoliadau wrth bennu Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu nifer o benderfyniadau statudol i'w gwneud yn unol â'r Rheoliadau o ran gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2020-2021.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi a mabwysiadu'r penderfyniadau statudol fel y'u hamlinellwyd;

2) Nodi bod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2019, wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2020-2021 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 91,923 oedd y swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn;

b) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,986 |
| Clydach | 2,661 |
| Gorseinon | 3,319 |
| Tre-gŵyr | 1,972 |
| Pengelli a Waungron | 426 |
| Llanilltud Gŵyr | 327 |
| Cilâ | 2,148 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 508 |
| Llangyfelach | 947 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,626 |
| Llanrhidian Isaf | 341 |
| Llwchwr | 3,446 |
| Mawr | 762 |
| Y Mwmbwls | 9,822 |
| Penllergaer | 1,437 |
| Pennard | 1,482 |
| Pen-rhys | 426 |
| Pontarddulais | 2,340 |
| Pontlliw and Thircoed | 1,039 |
| Porth Einon | 433 |
| Reynoldston | 300 |
| Rhosili | 190 |
| Y Crwys | 715 |
| Cilâ Uchaf | 589 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt;

3) Caiff y symiau canlynol eu cyfrifo bellach gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020-2021 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(a) £754,648,943 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(2)(a) i (d) y Ddeddf;

(b) £284,811,933 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(3)(a), 32(3)(c) a 32(3a) y Ddeddf;

(c) £469,837,010 yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm yn 3(a) uchod a'r cyfanswm yn 3(b) uchod, ac mae'n swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn;

(ch) £338,980,555 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, a'r Grant Cynnal Refeniw heb gymorth trethi annomestig dewisol;

(d) £1,423.54 yw'r swm yn (3)(c) heb y swm yn (3)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn;

(dd) £1,582,010 yw cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf;

(e) £1,406.33 yw'r swm yn (3)(e) heb y canlyniad a roddir trwy rannu'r swm yn (3)(f) uchod â'r swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt;

(f) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,432.51 |
| Clydach | 1,449.74 |
| Gorseinon | 1,444.33 |
| Tre-gŵyr | 1,423.50 |
| Pengelli a Waungron | 1,423.94 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,421.33 |
| Cilâ | 1,415.64 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,421.88 |
| Llangyfelach | 1,431.67 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,487.88 |
| Llanrhidian Isaf | 1,414.13 |
| Llwchwr | 1,431.83 |
| Mawr | 1,492.94 |
| Y Mwmbwls | 1,464.32 |
| Penllergaer | 1,414.68 |
| Pennard | 1,461.74 |
| Pen-rhys | 1,433.85 |
| Pontarddulais | 1,455.94 |
| Pontlliw and Thircoed | 1,433.07 |
| Porth Einon | 1,420.19 |
| Reynoldston | 1,448.00 |
| Rhosili | 1,423.70 |
| Y Crwys | 1,448.57 |
| Cilâ Uchaf | 1,438.59 |

dyma'r symiau a roddwyd trwy adio'r swm yn (3)(e) uchod a symiau'r eitemau arbennig sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y cyngor a nodwyd uchod, sydd wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (2)(b) uchod, a'u cyfrifo gan y cyngor yn unol ag Adran 34 (3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i anheddau yn rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(ff) Rhannau o ardal y cyngor:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 955.00 | 1,114.17 | 1,273.34 | 1,432.51 | 1,750.85 | 2,069.19 | 2,387.51 | 2,865.02 | 3,342.53 |
| Clydach | 966.49 | 1,127.57 | 1,288.66 | 1,449.74 | 1,771.91 | 2,094.07 | 2,416.23 | 2,899.48 | 3,382.73 |
| Gorseinon | 962.88 | 1,123.37 | 1,283.85 | 1,444.33 | 1,765.29 | 2,086.26 | 2,407.21 | 2,888.66 | 3,370.11 |
| Tre-gŵyr | 949.00 | 1,107.16 | 1,265.33 | 1,423.50 | 1,739.84 | 2,056.17 | 2,372.50 | 2,847.00 | 3,321.50 |
| Pengelli a Waungron | 949.29 | 1,107.51 | 1,265.72 | 1,423.94 | 1,740.37 | 2,056.81 | 2,373.23 | 2,847.88 | 3,322.53 |
| Llanilltud Gŵyr | 947.55 | 1,105.48 | 1,263.40 | 1,421.33 | 1,737.18 | 2,053.04 | 2,368.88 | 2,842.66 | 3,316.44 |
| Cilâ | 943.76 | 1,101.05 | 1,258.35 | 1,415.64 | 1,730.23 | 2,044.82 | 2,359.40 | 2,831.28 | 3,303.16 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 947.92 | 1,105.90 | 1,263.89 | 1,421.88 | 1,737.86 | 2,053.83 | 2,369.80 | 2,843.76 | 3,317.72 |
| Llangyfelach | 954.44 | 1,113.52 | 1,272.59 | 1,431.67 | 1,749.82 | 2,067.97 | 2,386.11 | 2,863.34 | 3,340.57 |
| Llanrhidian Uchaf | 991.92 | 1,157.24 | 1,322.56 | 1,487.88 | 1,818.52 | 2,149.16 | 2,479.80 | 2,975.76 | 3,471.72 |
| Llanrhidian Isaf | 943.42 | 1,100.65 | 1,257.89 | 1,415.13 | 1,729.61 | 2,044.08 | 2,358.55 | 2,830.26 | 3,301.97 |
| Llwchwr | 954.55 | 1,113.64 | 1,272.74 | 1,431.83 | 1,750.02 | 2,068.20 | 2,386.38 | 2,863.66 | 3,340.94 |
| Mawr | 995.29 | 1,161.17 | 1,327.06 | 1,492.94 | 1,824.71 | 2,156.47 | 2,488.23 | 2,985.88 | 3,483.53 |
| Y Mwmbwls | 976.21 | 1,138.91 | 1,301.62 | 1,464.32 | 1,789.73 | 2,115.13 | 2,440.53 | 2,928.64 | 3,416.75 |
| Penllergaer | 943.12 | 1,100.30 | 1,257.49 | 1,414.68 | 1,729.06 | 2,043.43 | 2,357.80 | 2,829.36 | 3,300.92 |
| Pennard | 974.49 | 1,136.91 | 1,299.32 | 1,461.74 | 1,786.57 | 2,111.41 | 2,436.23 | 2,923.48 | 3,410.73 |
| Pen-rhys | 955.90 | 1,115.21 | 1,274.53 | 1,433.85 | 1,752.49 | 2,071.12 | 2,389.75 | 2,867.70 | 3,345.65 |
| Pontarddulais | 970.62 | 1,132.40 | 1,294.17 | 1,455.94 | 1,779.48 | 2,103.03 | 2,426.56 | 2,911.88 | 3,397.20 |
| Pontlliw and Thircoed | 962.04 | 1,122.39 | 1,282.73 | 1,443.07 | 1,763.75 | 2,084.44 | 2,405.11 | 2,886.14 | 3,367.17 |
| Porth Einon | 946.79 | 1,104.59 | 1,262.39 | 1,420.19 | 1,735.79 | 2,051.39 | 2,366.98 | 2,840.38 | 3,313.78 |
| Reynoldston | 965.33 | 1,126.22 | 1,287.11 | 1,448.00 | 1,769.78 | 2,091.56 | 2,413.33 | 2,896.00 | 3,378.67 |
| Rhosili | 949.13 | 1,107.32 | 1,265.51 | 1,423.70 | 1,740.08 | 2,056.46 | 2,372.83 | 2,847.40 | 3,321.97 |
| Y Crwys | 965.71 | 1,126.66 | 1,287.62 | 1,448.57 | 1,770.48 | 2,092.38 | 2,414.28 | 2,897.14 | 3,380.00 |
| Cilâ Uchaf | 959.06 | 1,118.90 | 1,278.75 | 1,438.59 | 1,758.28 | 2,077.97 | 2,397.65 | 2,877.18 | 3,356.71 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 937.55 | 1,093.81 | 1,250.07 | 1,406.33 | 1,718.85 | 2,031.37 | 2,343.88 | 2,812.66 | 3,281.44 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd drwy luosi'r symiau yn (3)(e) a (3)(f) uchod â'r nifer sydd, yn ôl cyfanswm y boblogaeth a nodwyd yn Adran 5 (1) Y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol,

wedi'u rhannu â'r nifer sydd, yn y gyfran honno, yn gymwys i anheddau a restrir ym mand CH a gyfrifir gan y cyngor yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau'r anheddau a restrir yn y bandiau prisio gwahanol;

4) Dylid nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi nodi'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2020-2021 mewn preseptau a gyflwynwyd i'r cyngor yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 181.81 | 212.11 | 242.41 | 272.72 | 333.32 | 393.92 | 454.53 | 545.43 | 636.34 |

5) Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (3)(I) a (4) uchod, mae'r cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992, yn gosod, trwy hyn, y symiau canlynol fel y symiau Treth y Cyngor ar gyfer 2020-21 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a gaiff eu dangos isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,136.81 | 1,326.28 | 1,515.75 | 1,705.23 | 2,084.17 | 2,463.11 | 2,842.04 | 3,410.45 | 3,978.87 |
| Clydach | 1,148.30 | 1,339.68 | 1,531.07 | 1,722.46 | 2,105.23 | 2,487.99 | 2,870.76 | 3,444.91 | 4,019.07 |
| Gorseinon | 1,144.69 | 1,335.48 | 1,526.26 | 1,717.05 | 2,098.61 | 2,480.18 | 2,861.74 | 3,434.09 | 4,006.45 |
| Tre-gŵyr | 1,130.81 | 1,319.27 | 1,507.74 | 1,696.22 | 2,073.16 | 2,450.09 | 2,827.03 | 3,392.43 | 3,957.84 |
| Pengelli a Waungron | 1,131.10 | 1,319.62 | 1,508.13 | 1,696.66 | 2,073.69 | 2,450.73 | 2,827.76 | 3,393.31 | 3,958.87 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,129.36 | 1,317.59 | 1,505.81 | 1,694.05 | 2,070.50 | 2,446.96 | 2,823.41 | 3,388.09 | 3,952.78 |
| Cilâ | 1,125.57 | 1,313.16 | 1,500.76 | 1,688.36 | 2,063.55 | 2,438.74 | 2,813.93 | 3,376.71 | 3,939.50 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,129.73 | 1,318.01 | 1,506.30 | 1,694.60 | 2,071.18 | 2,447.75 | 2,824.33 | 3,389.19 | 3,954.06 |
| Llangyfelach | 1,136.25 | 1,325.63 | 1,515.00 | 1,704.39 | 2,083.14 | 2,461.89 | 2,840.64 | 3,408.77 | 3,976.91 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,173.73 | 1,369.35 | 1,564.97 | 1,760.60 | 2,151.84 | 2,543.08 | 2,934.33 | 3,521.19 | 4,108.06 |
| Llanrhidian Isaf | 1,125.23 | 1,312.76 | 1,500.30 | 1,687.85 | 2,062.93 | 2,438.00 | 2,813.08 | 3,375.69 | 3,938.31 |
| Llwchwr | 1,136.36 | 1,325.75 | 1,515.15 | 1,704.55 | 2,083.34 | 2,462.12 | 2,840.91 | 3,409.09 | 3,977.28 |
| Mawr | 1,177.10 | 1,373.28 | 1,569.47 | 1,765.66 | 2,158.03 | 2,550.39 | 2,942.76 | 3,531.31 | 4,119.87 |
| Y Mwmbwls | 1,158.02 | 1,351.02 | 1,544.03 | 1,737.04 | 2,123.05 | 2,509.05 | 2,895.06 | 3,474.07 | 4,053.09 |
| Penllergaer | 1,124.93 | 1,312.41 | 1,499.90 | 1,687.40 | 2,062.38 | 2,437.35 | 2,812.33 | 3,374.79 | 3,937.26 |
| Pennard | 1,156.30 | 1,349.02 | 1,541.73 | 1,734.46 | 2,119.89 | 2,505.33 | 2,890.76 | 3,468.91 | 4,047.07 |
| Pen-rhys | 1,137.71 | 1,327.32 | 1,516.94 | 1,706.57 | 2,085.81 | 2,465.04 | 2,844.28 | 3,413.13 | 3,981.99 |
| Pontarddulais | 1,152.43 | 1,344.51 | 1,536.58 | 1,728.66 | 2,112.80 | 2,496.95 | 2,881.09 | 3,457.31 | 4,033.54 |
| Pontlliw | 1,143.85 | 1,334.50 | 1,525.14 | 1,715.79 | 2,097.07 | 2,478.36 | 2,859.64 | 3,431.57 | 4,003.51 |
| Porth Einon | 1,128.60 | 1,316.70 | 1,504.80 | 1,692.91 | 2,069.11 | 2,445.31 | 2,821.51 | 3,385.81 | 3,950.12 |
| Reynoldston | 1,147.14 | 1,338.33 | 1,529.52 | 1,720.72 | 2,103.10 | 2,485.48 | 2,867.86 | 3,441.43 | 4,015.01 |
| Rhosili | 1,130.94 | 1,319.43 | 1,507.92 | 1,696.42 | 2,073.40 | 2,450.38 | 2,827.36 | 3,392.83 | 3,958.31 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Crwys | 1,147.52 | 1,338.77 | 1,530.03 | 1,721.29 | 2,103.80 | 2,486.30 | 2,868.81 | 3,442.57 | 4,016.34 |
| Cilâ Uchaf | 1,140.87 | 1,331.01 | 1,521.16 | 1,711.31 | 2,091.60 | 2,471.89 | 2,852.18 | 3,422.61 | 3,993.05 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 1,119.36 | 1,305.92 | 1,492.48 | 1,679.05 | 2,052.17 | 2,425.29 | 2,798.41 | 3,358.09 | 3,917.78 |

## 133. Strategaeth Gyfalaf 2020/21- 2025/26.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio'r Rhaglen Gyfalaf bedair blynedd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf.

## 134. Datganiad strategaeth rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion darbodus/Trysorlys, strategaeth fuddsoddi Datganiad polisi ar y ddarpariaeth isafswm refeniw 2020/21

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn argymell Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2020-21.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus (Adrannau 2-7 yr adroddiad);

2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi (Adran 8 yr adroddiad);

3) Cymeradwyo Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) (Adran 9 yr adroddiad).

## 135. Enwebu'r Darpar Arglwydd Faer a'r Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2020-2021.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio enwebu Darpar Arglwydd Faer a Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer 2020-2021 er mwyn caniatáu i drefniadau digwyddiad Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fynd yn eu blaen.

Atgoffodd y Cynghorwyr fod gan nifer o Gynghorwyr yr un hyd gwasanaeth yn union, ac yn unol â phrotocol yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer, roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi bwrw coelbren ar 20 Medi 2018 er mwyn sefydlu trefn Cyfnod y Swydd ar gyfer y pedwar Cynghorydd. O ganlyniad i fwrw coelbren, ystyriwyd y Cynghorwyr yn y drefn ganlynol; Y Cynghorwyr M C Child, M H Jones, A M Day ac L G Thomas.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Enwebu'r Cynghorydd Mark C Child yn Ddarpar Arglwydd Faer ar gyfer 2020-2021;

2) Enwebu'r Cynghorydd Mary H Jones yn Ddarpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2020-2021.

**136. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.**

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

**137. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd tair ar ddeg o (13) 'Gwestiynau Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) 'Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd pedwar (4) cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.50 pm

**Cadeirydd**